Pecyn Dogfennau

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council

sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

DYDD MAWRTH, 2 IONAWR 2024

AT: YR AELOD O'R CABINET DROS DREFNIADAETH A'R GWEITHLU

YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FYNYCHU CYFARFOD O'R **YR AELOD CABINET DROS DREFNIADAETH A'R GWEITHLU** A GYNHELIR YN **RHITH-GYFARFOD** AM **10.00 YB,** AR **DYDD MAWRTH, 9FED IONAWR, 2024** ER MWYN CYFLAWNI'R MATERION A AMLINELLIR AR YR AGENDA ATODEDIG.

Wendy Walters

PRIF WEITHREDWR

Swyddog Democrataidd:	**Mrs. Kelly Evans**
Ffôn (llinell uniongyrchol):	**01267 224178**
E-bost:	**kellyevans@sirgar.gov.uk**

Wendy Walters Prif Weithredwr, *Chief Executive,*
Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP
County Hall, Carmarthen. SA31 1JP

A G E N D A

1. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL**

2. **LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 15 AWST 2023** 3 - 4

3. **CYFNODAU RHYBUDD CONTRACT CYFLOGAETH** 5 - 6

Sylwer: - Nid oes hawl gan y wasg a'r cyhoedd fynychu'r cyfarfod. Bydd y cofnod penderfyniad yn cael ei gyhoeddi fel arfer o fewn 3 diwrnod gwaith.

YR AELOD CABINET DROS DREFNIADAETH A'R GWEITHLU

DYDD MAWRTH, 15 AWST 2023

PRESENNOL Cynghorydd P.M. Hughes (Cadeirydd)

Hefyd yn bresennol:
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)
A Clarke, Partner Busnes Arweiniol (AD)
J. Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Rhith-Gyfarfod - 10.00 - 10.18 yb

1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant personol.

2. DIWEDDARIAD POLISI DISWYDDO.

Bu'r Aelod Cabinet yn ystyried Polisi a Gweithdrefn Dileu Swyddi diwygiedig arfaethedig y Cyngor a oedd wedi'u diweddaru i adlewyrchu'r gofynion statudol a gyflwynwyd gan Ddeddf Diogelu rhag Dileu Swyddi (Beichiogrwydd ac Absenoldeb Teuluol) 2023.

Daeth y Ddeddf i rym ar 24 Gorffennaf 2023, a darparodd reoliadau diogelu o ran dileu swyddi a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i gyflogwr sy'n ystyried dileu swydd roi'r cynnig cyntaf ar gyfer swydd wag addas arall i weithiwr ar absenoldeb mamolaeth, mabwysiadu neu absenoldeb rhiant a rennir, os oes swydd wag addas yn bodoli. Byddai'r mesurau diogelu o ran dileu swyddi yn berthnasol o'r adeg y rhoddodd gweithiwr wybod i'r cyflogwr am feichiogrwydd, tan chwe mis ar ôl dychwelyd o absenoldeb mamolaeth, mabwysiadu neu absenoldeb rhiant a rennir.

PENDERFYNWYD mabwysiadu'r newidiadau statudol rhagnodedig a wnaed i Bolisi a Gweithdrefn Dileu Swyddi'r Cyngor.

_____ _____

CADEIRYDD **DYDDIAD**

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Cyfarfod yr Aelod Cabinet
Trefniadaeth a'r Gweithlu
9fed Ionawr 2024

Yr Aelod Cabinet:	Portffolio:
Y Cynghorydd Philip Hughes	Trefniadaeth a'r Gweithlu

Cyfnodau Rhybudd Contract Cyflogaeth

Y Pwrpas:

Ystyried a chytuno ar y cyfnodau rhybudd cytundebol priodol ar gyfer ein gweithlu, sy'n berthnasol i'w statws yn y sefydliad, ac wrth ystyried yr heriau recriwtio yn ein grwpiau galwedigaethol proffesiynol o ran swyddi 'anoddach recriwtio iddynt'.

Yr argymhellion / penderfyniadau allweddol sydd eu hangen:

Rhoi ar waith y gofynion o ran y cyfnod rhybudd cytundebol diwygiedig yn dilyn cyfnod o ymgynghori â'r Undebau Llafur.

Y Rhesymau:

Cydbwyso'r hyn sy'n deg i'r gweithiwr â'r hyn sy'n rhesymol i'r sefydliad, yn enwedig o ran recriwtio gweithiwr newydd i'r swydd. Alinio ein cyfnodau rhybudd i gyd-fynd â nifer o'n cyd-Gynghorau Sir yng Nghymru a sefydliadau partner, i gefnogi'r gwaith o drosglwyddo gweithwyr yn fwy amserol.

Y Gyfarwyddiaeth: Y Prif Weithredwr Enw Pennaeth y Gwasanaeth: Paul Thomas Awdur yr Adroddiad: Kate Morgan	Swyddi: Y Prif Weithredwr Cynorthwyol – Rheoli Pobl Uwch-bartner Busnes Adnoddau Dynol	Ffôn: Cyfeiriadau e-bost: PRThomas@sirgar.gov.uk

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol